**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET - PARC COFFA YNYSANGHARAD**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad a gynhaliwyd Dydd Llun, 27 Tachwedd 2023 am 1.00 pm ym Rhithwir.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd M Webber (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd S Powderhill

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr S Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Critchlow, Rheolwr Gwasanaethau Parcio a Gwaith Stryd
Mr P Mortimer, Rheolwr Cyllid a Gweithredu

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

**7 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**8 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2023 yn rhai cywir.

**9 PARC COFFA YNYSANGHARAD - RHAGLEN CYNNAL A CHADW COED: GAEAF 2023/24**

Rhoddodd Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Gofal y Strydoedd drosolwg o'i adroddiad i Aelodau, gan roi gwybod iddyn nhw am y gwaith sydd wedi'i gynllunio i gynnal a chadw coed ym Mharc Coffa Ynysangharad dros fisoedd y gaeaf.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau y byddai'r gwaith yma'n sicrhau bod coed ym Mharc Coffa Ynysangharad yn cael eu rheoli mewn modd effeithiol, a bod risg materion diogelwch coed i'r cyhoedd mor isel â phosibl, a hynny wrth gynnal a chadw nifer o goed iach a chynaliadwy i gadw gwerth yr amwynder.

Nodwyd bod y coed yn nodwedd bwysig yn y parc a rhoddwyd sicrwydd i

Aelodau nad yw unrhyw waith diangen yn cael ei gynnal. Felly, dim ond coed peryglus, coed â chlefyd a choed sydd eisoes wedi marw sy'n cael eu torri.

Tynnwyd sylw Aelodau at yr atodiad i'r adroddiad a oedd yn cynnwys manylion y coed sydd i'w torri a'r rhesymau pam.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod coed ychwanegol yn cael eu plannu ledled RhCT bob blwyddyn, a hynny ar ben y gwaith cynnal a chadw arfaethedig. Mae hyn er budd pawb ac mae'n rhan o fenter newid yn yr hinsawdd y Cyngor i wella, ailblannu a chynyddu nifer y coed fel asedau ar gyfer atafaelu carbon a datblygiad cynaliadwy.

Cyn dod â'i adroddiad i ben, rhoddodd y Swyddog wybod i Aelodau y byddai coeden newydd yn cael ei phlannu yn rhan o'r rhaglen cynnal a chadw coed flynyddol o ganlyniad i golli coeden yn rhan o gynlluniau'r Eisteddfod. Cadarnhawyd y byddai barn ymddiriedolwyr yn cael ei chasglu o ran lleoliad y goeden yn y parc cyn ei phlannu.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad a siaradodd am bwysigrwydd y coed er budd pawb sy'n defnyddio'r parc a chytunodd fod angen sicrhau bod y coed yn cael eu cynnal a'u cadw. Croesawodd y Cadeirydd y gwaith ailblannu coed a nodwyd a'r cyfle i blannu coeden mewn perthynas â'r Eisteddfod. Gofynnodd am sicrwydd y byddai barn yr ymddiriedolwyr yn cael ei chasglu o ran lleoliad y goeden ac awgrymodd osod plac wrth ei hochr i gydnabod cynnal yr Eisteddfod yn RhCT yn 2024.

Siaradodd Aelod o'r Pwyllgor am bwysigrwydd y cynllun cynnal a chadw a rhannu gwaith o'r fath gyda'r cyhoedd er mwyn atal unrhyw gamgyfleu. Siaradodd Aelodau am ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu'r negeseuon pwysig yma. Siaradodd y Cyfarwyddwr am bwysigrwydd cyfathrebu ac am y gwaith heb ei gynllunio sydd ei angen yn dilyn tywydd garw, ac eto am bwysigrwydd rhannu gwybodaeth am waith o'r fath.

Cafodd cwestiwn ei ofyn o ran Coedlan y Leimwydden a rhoddodd y swyddog wybod am yr amser doeth i ddatgloddio a symud y coed i sicrhau eu bod nhw'n cael eu hailblannu a'u bod nhw'n aildyfu.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

i. Nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r rhaglen o waith cynnal a chadw coed sydd wedi'i hargymell a'i threfnu ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2023 a Chwefror 2024.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.15 pm**

**Cllr M Webber**
**Cadeirydd.**